

Cymwys ar gyfer y dyfodol – Pam rydym ni'n ymgynghori

Yr Hydref 2019



Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru. Rydym yma i ddiogelu dysgwyr a hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau.

Diwygio Cymwysterau

Mae addysg yng Nghymru yn dechrau ar gyfnod sylweddol o newid. Yn ganolog i'r newidiadau hyn mae cwricwlwm newydd arloesol ar gyfer y rhai rhwng 3 ac 16 oed.

Er mwyn ategu'r cwricwlwm newydd, rydym am sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o bobl 16 oed yn cymryd cymwysterau ac iddynt barch byd-eang, sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Rydym am sicrhau bod unrhyw newidiadau a wnawn yn arwain at welliannau a sefydlogrwydd hirhoedlog i'r system gymwysterau.

Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw bod pobl 16 oed yn sefyll cymwysterau ac iddynt barch byd-eang sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon a datblygu ein hymagwedd tuag at gymwysterau yn y dyfodol, bydd angen ymdrech ar y cyd gyda mewnbwn gan randdeiliaid addysg a thu hwnt. Byddwn yn gweithio'n agored ac ar y cyd ag eraill i gytuno sut y bydd angen i gymwysterau newid.

Dylid cynllunio cymwysterau i hyrwyddo addysgu a dysgu cadarnhaol ac ni ddylent fod yr unig ffordd y mae pobl ifanc 14-16 oed yn ymgysylltu ac yn cael profiad o'r cwricwlwm. Rydym, am sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd hwn yn gywir.

Mae cymwysterau'n gweithio orau pan fydd lefel dda o ddealltwriaeth gyhoeddus am eu gwerth a pham

bod eu hangen, ar gyfer pwy a beth y maen nhw, a sut i'w dehongli. Trwy ein dull agored a chydweithredol rydym am greu ymdeimlad o berchnogaeth yn yr ystafell ddisbarth yn ogystal ag mewn cymdeithas.

Diben yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chydweithio fel y gall pawb chwarae eu rhan wrth lunio'r cymwysterau gaiff eu cynnig yn y dyfodol. Rydym am glywed gan bawb sydd â diddordeb.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar ein cynigion mewn perthynas ag:

- Egwyddorion allweddol a ddylai gael eu hystyried i'r holl gymwysterau a arenir gan arian cyhoeddus fydd yn cael eu sefyll yn 16 oed;
- Cadw cymwysterau a elwir yn TGAU ac adolygu cymwysterau TGAU presennol i weld sut gallent fod yn fwy blaengar a chefnogi dibenion y cwricwlwm ar wahân yn well;
- Ailddatblygu'r Dystysgrif Her Sgiliau i barhau i gynnig y dewis o gymhwyster annibynnol sy'n asesu sgiliau ehangach.

Gwaith yn y dyfodol

Dyma'r cyntaf o gyfres ymgynghoriadau sy'n ymwneud â chymwysterau mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd, a bydd eich adborth yn ein cynorthwyo i lunio ein hymagwedd at y gwaith pwysig hwn.

Mae'r diagram canlynol yn dangos amseriad a threfn dros dro ein rhaglen waith arfaethedig.

Am wybodaeth bellach neu i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, anfonwch e-bost i diwygio@cymwysteraucymru.org neu ewch i www.cymwysteraucymru.org

**Tachwedd 2019 i
Chwefror 2020**

Ymgynghoriad ar:

- Egwyddorion ar gyfer cymwysterau a gymerir yn 16 oed sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus
- Cadw'r enw TGAU fel rhan o'r cymhwyster sy'n cael ei gynnis
- Ailddatblygu'r Dystysgrif Her Sgiliau i fod yn gymwyster ar wahân

2020

Camau nesaf:

- Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r penderfyniadau sy'n deillio o hynny
- Cyngor i'r Gweinidog Addysg

Ymgynghoriad ar:

- Pa gymwysterau penodol fydd yn ffurfio rhan o'r cynnis a ariennir yn gyhoeddus
- Cymwysterau i gefnogi'r continwwm ar gyfer dysgu'r Gymraeg
- Egwyddorion dylunio cymwysterau TGAU ar gyfer y dyfodol (os cânt eu cadw)
- Cynigion mwy manwl ar y cymhwyster ar wahân i asesu "sgiliau ehangach" (os cânt eu cadw)

2021

Camau nesaf:

- Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriadau a'r penderfyniadau sy'n deillio o hynny
- Cadarnhau amserlen ar gyfer datblygu cymwysterau newydd a'r rhai wedi'u diweddarau
- Ystyried y gofynion rheoleiddiol sydd eu hangen i roi'r weledigaeth a'r egwyddorion ar waith

Ymgynghoriadau ar gymwysterau unigol:

- Nodweddion dylunio a chynnwys y cymwysterau newydd a'u rhai wedi'u diwygio.

Camau nesaf:

- Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriadau ac adrodd ar y canlyniadau
- Cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar gyfer pynciau unigol

O 2021

- Cyrff dyfarnu yn datblygu cymwysterau newydd a diweddarau eraill i fodloni gofynion rheoliadol
- Gofynion ar gyfer adnoddau addysgu a dysgu hanfodol i gefnogi cymwysterau a glustnodwyd ac sy'n cael eu bwydo i fodel comisiynu strategol